Minutes of the **Planning & Amenities Committee** Meeting held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd on **Monday 15th July 2019** at 6.30pm.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **PRESENT:-** | The Deputy Mayor, Councillor Owen Hurcum | | | |
| | Councillors :- | Luke Tugwell (Vice-Chair) | | |
| | | Derek Hainge | C King | Gareth Roberts |
| | | Dylan Fearnley | J M Martin | Mair Rowlands |
| | | J Wynn Jones | Enid Parry | Ifan James |
| | Officer :- | Mr Ian Jones, Town Clerk | | |

**55/19 APOLOGIES FOR ABSENCE**

His Worship the Mayor, Councillor John Wyn Williams and Councillors Les Day, Medwyn Hughes, Keith Jones, N Pickavance, Gwynant Roberts and Elin Walker Jones.

**56/19 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**
None.

**57/19 URGENT BUSINESS**

**i) Cancellation of Celebration Street**
Councillor Enid Parry brought to the attention of the Committee details of what had been planned as a celebration of graduation at the University within the City Centre. She expressed her disappointment at how event transpired.

Councillors agreed that it was a disappointing outcome but that the lessons learnt were valuable and that an event such as this was a good idea and the City Council could contribute to something similar next year within a partnership scheme.

ii) The Deputy Mayor outlined the recent success of the "Sing for Sanctuary" event held at Pontio. He suggested that the Committee ask His Worship the Mayor to write to the organisers congratulating them on the event and for raising over £2,000 for local charities.

**58/19 BANGOR IMAGE UPDATE**

Councillor John Wynn Jones gave details of the Meeting of the Bangor Image Group Meeting held on 10 June 2019. The areas covered in the meeting were as follows:-

- Attendance at and brief of the meeting
- Altrincham visit and vision for Bangor
- Perception and branding
- High Street works and condition
- Refuse collections and trials
- Environment Warden
- Enforcement and Gwynedd policy
- Plastic free and recycling
- Roundabout sponsorship
- Publicity and joined-up working

Following a brief debate, the Town Clerk was asked to write to Gwynedd Council's Planning Department to ensure that the "To Let" Board removal scheme was adhered to.

**59/19 PLANNING APPLICATIONS**

**RESOLVED** that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below:-

**C19/0582/11/LL** Conversion of outbuilding to form part of dwellinghouse. 6 Lon Glandwr. **No objection.**

**C19/0583/11/CR** Internal and external alterations to dwelling house, to include conversion of outbuilding to form part of the house. 6 Lon Glan Dwr. **No objection.**

**C19/0586/11/CC** Pruning and tree felling works to trees subject to Tree Preservation Order 3/TPO/A44. Yr Archddiacondy, 1 Ffordd Belmont, **No objection.**

**C19/0590/11/LL** Alterations to shop front.258 High Street. **No objection but it was expected that any changes to the shop frontage would be compliant with the strict guidelines.**

**C19/0591/11/HY** Placing of new signage on front. 258 High Street. **No objection but it was expected that any changes to the shop frontage would be compliant with the strict guidelines.**

**C19/0606/11/HY** Siting of non-illuminated signs. Craig Beuno, Ffordd Garth. **No objection.**

**C19/0607/11/LL** Change of use of site from a B2 Use Class (General Industrial) to a B1 Use Class (Light Industrial) together with drainage works. Gwynedd Garage, Ffordd yr Orsaf. **Objection as there was insufficient information to consider a response. There was also a potential issue about access and egress.**

**C19/0609/11/HD** Dymchwel rhan is-safonol o'r adeilad presennol / Demolish sub-standard section of existing building. Coleg Menai, Ffordd Ffriddoedd. **No objection** and the Town Clerk was asked to make enquiries as to the future re-location of the Mural on the side wall of the building.

**C19/0618/11/LL** Create an additional residential unit to the unit that already exists on the upper floor together with minor extend alterations. 246- 250 Stryd Fawr. **No objection.**

**C19/0646/11/CT** Fell tree subject to a preservation order together with pruning of another tree within a conservation area. Llain Deiniol, Lon Cariadon. **No objection, however it was requested that a replacement tree be planted.**

**60/19 HIGHWAY MATTERS** - None.

**61/19 LICENSING MATTERS -** None.

**62/19 PIER UPDATE**

The Town Clerk reported updates with regard to the Pier and responded to questions about the following :-

- Renovation progress
- Pavilion occupation
- Car Park
- Pricing and footfall
- Pier House and Staffing.

**63/19 INVOICES FOR PAYMENT**

Invoices as detailed on the schedule totalling £24,018.10 had been approved. **RESOLVED:** that the payments be noted.

**64/19 TO APPOINT AN EMERGENCY COMMITTEE FOR AUGUST**

**RESOLVED:** that a Committee comprising of the Mayor, Deputy Mayor, the Chairmen and Vice Chairmen of the Planning and Amenities and the Finance and General Purposes Committees and the Senior Member of the Council be appointed to consider any emergency items which may arise during the August recess and to give that Emergency Committee Powers to Act on behalf of the Council on any such matter.

**65/19 EXCLUSION OF PRESS AND PUBLIC**

**RESOLVED:** That under the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, members of the press and public be excluded from the meeting due to the confidential nature of their business to be transacted.

**a) Quotations for the supply of planking**

The Town Clerk outlined details of three quotations received for the supply of Sawn Opepe planks.

**RESOLVED** that quotation from “Company C” be accepted at a cost of £11,112.50

**b) City Council’s Estate**

The Town Clerk reported that a request had been received about the freehold of one of its sites in the City. He re-iterated that a review of the Council’s Estate was required urgently to establish a policy and to be more economical with the resources available. **RESOLVED**: that the Community Transfer Asset Sub-group be convened to review all of the City Council’s estate and report back to the Committee.

The meeting finished at 8.00pm.

Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd **Nos Lun 15 o Orffennaf 2019** am 6.30 y.h.

**YN BRESENNOL:-** Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Owen Hurcum
Y Cynghorwyr:- Luke Tugwell Is-gadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| D Hainge | C King | Gareth Roberts |
| Dylan Fearnley | J M Martin | Mair Rowlands |
| J Wynn Jones | Enid Parry | Ifan James |

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref

**55/19 YMDDIHEURIADAU**

Ei Deilyngdod y Maer Y Cynghorydd John Wyn Williams a'r Cynghorwyr Les Day, Medwyn Hughes, Keith Jones, N Pickavance, Gwynant Roberts ac Elin Walker Jones.

**56/19 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim.

**57/19 MATERION BRYS**

**i) Canslo Stryd y Dathlu**
Tynnodd y Cynghorydd Enid Parry sylw'r Pwyllgor at fanylion yr hyn a gynlluniwyd fel dathliad o'r graddio ym Mhrifysgol Bangor yng Nghanol y Ddinas. Mynegodd ei siom am sut y digwyddodd pethau.

Roedd y Cynghorwyr yn cytuno fod hwn yn ganlyniad siomedig ond bod y gwersi a ddysgwyd yn rhai gwerthfawr, a bod hwn yn dal i fod yn syniad da. Gallai Cyngor y Ddinas gyfrannu at ddigwyddiad tebyg y flwyddyn nesaf mewn cynllun partneriaeth.

iii) Soniodd y Dirprwy Faer am lwyddiant diweddar y digwyddiad "Canu am Noddfa" a gynhaliwyd yn Pontio. Awgrymodd fod y Pwyllgor yn gofyn i'w Deilyngdod y Maer i ysgrifennu at y trefnwyr i'w llongyfarch ar y digwyddiad ac ar godi dros £2,000 i elusennau lleol.

**58/19 DELWEDD BANGOR - DIWEDDARIAD**

Rhoddodd y Cynghorydd John Wynn Jones fanylion cyfarfod Grŵp Delwedd Bangor a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2019. Roedd yr agweddau a drafodwyd yn y cyfarfod fel a ganlyn:-

- Presenoldeb a brîff y cyfarfod
- Ymweliad ag Altrincham a'r weledigaeth i Fangor
- Canfyddiad a brandio
- Gwaith a chyflwr y Stryd Fawr
- Casgliadau sbwriel a chynigion
- Warden Amgylcheddol
- Gorfodi a pholisi Gwynedd
- Di-blastig ac ailgylchu
- Noddi cylchfannau
- Cyhoeddusrwydd a gweithio cydgysylltiedig

Yn dilyn trafodaeth fer, gofynnwyd i Glerc y Dref ysgrifennu at Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd i sicrhau fod y cynllun tynnu arwyddion "Ar Osod" yn dal i gael ei ddilyn.

**59/19 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD:** Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod:-

**C19/0582/11/LL** Addasu adeilad allanol i ffurfio rhan o'r tŷ. 6 Lôn Glandwr. **Dim gwrthwynebiad**

**C19/0583/11/CR** Addasiadau mewnol ac allanol i dŷ annedd, yn cynnwys addasu'r adeilad allanol i ffurfio rhan o'r tŷ. 6 Lôn Glan Dwr. **Dim gwrthwynebiad**

**C19/0586/11/CC** Gwaith tocio a thorri coed sy'n destun Gorchymyn Diogelu Coed 3/TPO/A44. Yr Archddiacondy, 1, Ffordd Belmont, **Dim gwrthwynebiad.**

**C19/0590/11/LL** Newidiadau i edrychiad blaen y siop. 258 Stryd Fawr. **Dim gwrthwynebiad ond disgwyl y byddai unrhyw newidiadau i flaen y siop yn cydymffurfio â'r canllawiau llym.**

**C19/0591/11/HY** Gosod arwyddion newydd ar du blaen yr adeilad. 258 Stryd Fawr. **Dim gwrthwynebiad ond disgwyl y byddai unrhyw newidiadau i flaen y siop yn cydymffurfio â'r canllawiau llym.**

**C19/0606/11/HY** Gosod arwyddion heb eu goleuo. Craig Beuno, Ffordd Garth. **Dim gwrthwynebiad.**

**C19/0607/11/LL** Newid defnydd safle o Ddefnydd Dosbarth B2 (Diwydiant Cyffredin) i Ddefnydd Dosbarth B1 (Diwydiant Ysgafn) ynghyd â gwaith draenio. Gwynedd Garage, Ffordd yr Orsaf. **Gwrthwynebiad gan nad oedd digon o wybodaeth i ystyried ymateb. Roedd hefyd problem bosibl gyda'r mynediad a'r allanfa.**

**C19/0609/11/HD** Dymchwel rhan is-safonol o'r adeilad presennol. Coleg Menai, Ffordd Ffriddoedd. **Dim gwrthwynebiad** a gofynnwyd i Glerc y Dref wneud ymholiadau ynghylch ail-leoli'r Murlun sydd ar wal ochr yr adeilad yn y dyfodol.

**C19/0618/11/LL** Creu uned breswyl ychwanegol i'r uned sydd eisoes yn bodoli ar y llawr uchaf ynghyd â man newidiadau allanol. 246- 250 Stryd Fawr. **Dim gwrthwynebiad**

**C19/0646/11/CT** Torri coeden â Gorchymyn Diogelu Coed arni ynghyd â thocio coeden arall mewn ardal gadwraeth. Llain Deiniol, Lôn Cariadon. **Dim gwrthwynebiad, fodd bynnag gofynnwyd am blannu coeden yn ei lle.**

**60/19 MATERION PRIFFYRDD –** Dim.

**61/19 MATERION TRWYDDEDU –** Dim.

**62/19 DIWEDDARIAD Y PIER**

Adroddodd y Dirprwy Faer am y diweddaraf am y Pier ac ymatebodd i gwestiynau am y canlynol:-

- Cynnydd y gwaith adfer
- Meddiannaeth y Pafiliwn
- Y Maes Parcio
- Prisiau a nifer ymwelwyr
- Tŷ'r Pier a Staffio.

**63/19 ANFONEBAU I'W TALU**

Adroddwyd fod anfonebau fel ag yn ôl y rhestr yn dod i gyfanswm o £24,018.10 wedi cael eu cymeradwyo.
**PENDERFYNWYD**: fod y taliadau'n cael eu nodi.

**64/19 PENODI PWYLLGOR BRYS AR GYFER MIS AWST**

**PENDERFYNWYD** penodi Pwyllgor i gynnwys y Maer, y Dirprwy Faer, Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Cynllunio a Mwynderau a Chyllid ac Amcanion Cyffredinol ac Aelod Hŷn y Cyngor i ystyried unrhyw faterion brys a allai godi yn ystod gwyliau mis Awst ac i roi Hawl i Weithredu i'r Pwyllgor Brys hwnnw ar ran y Cyngor ar unrhyw fater o'r fath.

**65/19 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:** O dan ddarpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, gwahardd aelodau'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitemau i'w trafod.

**a) Prisiau am gyflenwi planciau**

Rhoddodd Clerc y Dref fanylion tri dyfynbris a dderbyniwyd am gyflenwi planciau Opepe wedi'u llifio.

**PENDERFYNWYD** derbyn pris "Cwmni C" am bris o £11,112.50

**b) Ystad Cyngor y Ddinas**

Adroddodd Clerc y Dref fod cais wedi'i dderbyn am rydd-ddaliad un o'i safleoedd yn y Ddinas. Pwysleisiodd eto fod angen adolygiad o Ystad y Cyngor ar frys er mwyn sefydlu polisi a bod yn fwy darbodus gyda'r adnoddau sydd ar gael.
**PENDERFYNWYD:** Galw'r Is-grŵp Trosglwyddo Asedau Cymunedol i adolygu holl ystâd Cyngor y Ddinas ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00pm.